

YN HAPUS OND YN NEWYNOG—SUT GALL HYN FOD?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod y sefyllfa newyn druenus yn y drefn bresennol yn dangos yr angen brys ymarferol sydd am y Deyrnas. Yn fwy pwysig, mae'r ddynoliaeth yn newynu'n ysbrydol, ond mae gan Gristionogion fwyd ysbrydol helaeth ar gael

BOED NI'N NEWYNOG AI PEIDIO, DYLAI FOD CONSYRN GENNYM YNGHYLCH NEWYN (5 mun.)

I chi, ai dim ond teimlad sy'n gyflym fynd heibio ydi bod â chwant bwyd arnoch chi, neu ydi e'n barhaol a dwys am fod prinder bwyd materol arnoch chi?

Mae llawer o bobl yn bwyta prydau bwyd yn rheolaidd; yn poeni mwy am fod yn pwysu gormod nag am ddiodd-ef newyn

Ond mae miliynau heddiw yn gyson newynog, yn sâl oherwydd diffyg maeth (*tp* 14-15; *gm* 140)

Er na allant ddatrys problemau newyn y byd, fe ddylai Cristionogion ddangos consyrn ynghylch newyn

Mae holl broblem newyn y tu hwnt i allu dyn i'w datrys yn y drefn bresennol (*g85* 5/22 9-10)

Mae gobeithion am y chwyldro gwyrdd (rhywogaethau cnydau grawn gwell) yn gwywo yn wyneb heintiau planhigion a phroblemau eraill (*g86* 11/22 30; *g80* 8/22 7-8)

Mae problemau gwleidyddol ac economaidd yn ymyrryd â mewforio a dosbarthu bwyd (*g87* 10/22 29)

Dylai Cristionogion efelychu Iesu, dangos consyrn a gwneud yr hyn a fedrwn (Mth 15:32)

'Roedd y Cristionogion cynnar yn rhannu'u bwyd, yn enwedig gyda chyd-gredinwyr mewn angen ond nid oherwydd diogi neu afradu arian ar ddrygwaith (Act 2:46)

Soniodd Iesu am newyn sy'n ymwneud â phawb ohonom ni (Lc 6:21, 25)

SUT GALL Y NEWYNOG FOD YN HAPUS? (15 mun.)

Er mwyn llawn ddeall geiriau Iesu, rhaid inni gydnabod math arall o newyn—newyn ysbrydol a dymuno cyfiawnder (*w86* 10/1 8-9; *w78* 2/15 8)

Pa un ai ydi person yn cael digon i'w fwyta ai peidio, gall person fod yn dioddef diffyg maeth ysbrydol (Amos 8:11, 12)

Mae newyn corfforol ac ysbrydol yn aml yn perthyn i'w gilydd, fel dangosodd Iesu

Mae newyn llym yn deimlad poenus iawn ac ysol; mae'n golygu mwy na'r stumog

Mae teimlo'n newynog yn ymwneud â lefel glwcos y gwaed a'r hylif sy'n amgylchu'r ymennydd

Os yw person heb fwyd, fe allai ei fod yn fwy ymwybodol o anghyfiawnderau ac annhegwch trefn bresennol pethau

Ym Mathew 5:6, mae Iesu'n siarad am newynu a sychedu am gyfiawnder

Yma 'roedd Iesu'n siarad am gyfiawnder enw da gyda Duw

Mae'r person sy'n newynu am enw da gyda Duw yn teimlo'n fodlon, neu'n "llawn," pan mae o'r diwedd yn ennill hyn

'Ydych chi'n newynu am gyfiawnder, am enw da gyda Duw?

Mae bod 'wedi'n llenwi' 'nawr â hunan-gyfiawnder, y gwrthwyneb i newyn ysbrydol, yn effeithio er drwg ar ein hagwedd feddyliol ni a'n perthynas â Duw (Lc 6:25)

Efallai na fydd pobl sy'n fodlon â'r hyn sydd gan y byd i'w gynnig yn hiraethu am gyfiawnder Duw

Mae llawer mewn gwledydd cyfoethog yn faterol fodlon 'nawr

'Ydych chi'n synhwyro fod hyn yn berygl ysbrydol gwirioneddol? 'Ydych chi a'ch teulu'n "newynu . . . am gyfiawnder" neu'n debycach i'r rhai sydd "wedi eich llenwi"?

Gall rhai bodlon ddeffro amser y drychineb olaf, ond fe fydd yn rhy hwyr y pryd hwnnw (Diar 1:28-32; Lc 12:16-21)

Ond sut daw hapusrwydd o newynu am gyfiawnder Duw 'nawr?

Gall newynu am gyfiawnder Duw a byw mewn harmoni ag ef helpu dyn yn economaidd (*w86* 5/1 5-6; *g78* 10/8 4-23)

Gall y rhai sy'n newynu am gyfiawnder hefyd fod yn hapus 'nawr oherwydd bodlonrwydd y bywyd maen' nhw'n ei fyw (*gm* 162-80)

Yn ennill gwell iechyd meddyliol a chorfforol (Eglurwch gyda phrofiad)

Mae priodas a bywyd y cartref yn fwy pleruser (Eglurwch gyda phrofiad)

Yn mwynhau perthnasu mwy heddychlon a diogelwch (Eglurwch gyda phrofiad)

Yr hapusrwydd mwyaf yw fod newynu am gyfiawnder yn dod â dyn yn nes at Dduw

Mae dyn yn sylweddoli yr estynnir cariad Duw trwy Grist iddo ef (Rhuf 8:35, 38, 39)

Mae hapusrwydd hwnnw hefyd yn fawr oherwydd cael sail gobraith bywyd tragwyddol mewn byd newydd

Ond beth 'fedrwn ni ei wneud 'nawr i gynyddu'n hapusrwydd?

CYNYDDWCH EICH HAPUSRWYDD—CYDNABYDDWCH EICH ANGEN YSBRYDOL A'I GYFLENWI
(20 mun.)

Cydnabyddwch eich angen ysbrydol (Mth 5:3)

Mae Iesu yn ein sicrhau ni y caiff y rhai sy'n newynu am gyfiawnder "eu digon." Sut medrwn ni wneud hynny? (Mth 5:6)

Rhaid rhoi ffydd yn aberth Crist, gan ennill maddeuant a mesur o gyfiawnder yng ngolwg Duw (Dat 7:14)

Derbyn yr ysbryd sanctaidd a gwisgo'r natur ddynol newydd, sy'n gysylltiedig â'r "cyfiawnder" sy'n weddus (Eff 4:24)

Mi fedrwn ni—ac fe ddylem ni—ymroddi i ddysgu rhagor o'r Ysgrythurau, sy'n angenrheidiol i "ddisgyblu mewn cyfiawnder" (2Tim 3:16)

'Ydych chi'n cydnabod eich angen ysbrydol a'i ddiwallu'n gyson?

Mor hawdd ydi ymgolli mewn gofalu am anghenion materol yn unig, sef yr hyn a wna llawer sy'n gorfforol newynog (*w89 12/15 19*)

'Ydi hi'n wahanol yn eich achos chi? Faint o amser y dydd neu'r wythnos y byddwch chi'n meddwl neu boeni am incwm, biliau, dillad, adloniant?

Er fod yn rhaid inni ofalu am ein bywydau, ai doeth fyddai inni ganoli ar faterion o'r fath fel nad ydym yn gyfoethog ym mhethau Duw nac yn ymwybodol o anghenion ysbrydol? (Lc 12:19-31)

Da fyddai ichwi ddadansoddi eich trefn ddyddiol ac wythnosol arferol i weld beth 'rydych yn ei wneud i ennill maeth ysbrydol (Darllen 1 Timotheus 4:6)

Adeiladwyd ysbrydolrwydd Timotheus drwy gydnabod ei angen ysbrydol a'i ddiwallu'n gyson

Cafodd ei gynnal neu ei faethu gan Air Duw; 'roedd yn ei ystyried yn rheolaidd

Bob dydd rhowch ystyriaeth i destun y dydd; gellir gwneud hynny amser pryd bwyd wrth inni ddiwallu'n newyn corfforol

'Ydi ystyried testun y dydd yn rhan o'ch *trefn* ddyddiol chi (neu eich teulu chi)?

Darllenwch o'r Beibl yn rheolaidd; dilynwch raglen ddarllen Ysgol y Weinidogaeth Theocrataidd

Cynyddwch y maeth a gewch o Air Duw drwy dreiddio'n ddyfnach i mewn i bethau, nid ystyried pethau'n arwynebol neu gyda gwneud y lleiaf posibl mewn golwg

Gellid gwneud ymchwil pellach bob wythnos i ddarlleniad y Beibl ar gyfer yr ysgol (*w91 5/1 15-16*)

Fe wyddom fel mae'r Beibl yn gwahaniaethu rhwng 'llaeth y Gair' a "bwyd cryf," ond ble 'rydym ni'n sefyll? (Heb 5:12, 14)

Lle maen' nhw ar gael, mae'r *Indexes* yn arfau gwerthfawr, ond 'ydym ni'n eu defnyddio nhw? (Rhowch enghraifft)

Da o beth ydi adolygu eich arferion bwyta ysbrydol a phenderfynu sut y gellir eu gwella nhw

Nid dim ond ymarfer deallusol ydi hyn, oherwydd yn ôl Mathew 5:6, mae a wnelo fe â'n hapusrwydd ni

EDRYCHWCH I GYFEIRIAD DUW AM HAPUSRWYDD A DIWEDD AR NEWYN (5 mun.)

Wrth i Jehofah ddarparu'r hyn sydd ei angen arnom i ddiwallu'n newyn ysbrydol a gosod safon cyfiawnder, fe all ein bendithio ni hefyd â llawnder bwyd materol

Efallai y bydd rhai yn ymateb i brinder bwyd corfforol a newyn trwy droi yn erbyn Duw, er mai ef ydi Darparwr holl fwyd dyn (Act 14:17)

Eisoës mae ei ddarpariaethau ar gyfer y ddaear yn ddigonol i roi terfyn ar newyn, onibai am ymwneud dyn (*tp 106; g89 11/8 28*)

Mae ymwneud Duw yn y gorffennol yn ein sicrhau ni ei fod e'n gallu rhoi terfyn ar newyn yn y byd newydd ac y bydd e'n gwneud hynny

Pan sylweddolodd Israel ei hangen ysbrydol a glynu wrth Jehofah, fe fendithiodd nhw'n hael yn faterol (Deut 28:11, 12, 14)

Deilliai eu hapusrwydd nid yn unig o gael eu bwydo'n ysbrydol ond hefyd o fwyta bwyd materol oedd yn boddhau

Dylai'n gwybodaeth o'r hyn mae Jehofah yn ei wneud 'nawr ac a wna eto ychwanegu at ein hapusrwydd presennol

Mae angen i bawb ohonom weithredu'n gadarnhaol i ddiwallu'n hanghenion ysbrydol, yr un mor gadarnhaol ag a wnawn i geisio sicrhau bwyta'n ddyddiol

Bydd hyn yn ein helpu ni yn y ffyrdd ymarferol a drafodwyd, yn cynyddu'n hapusrwydd 'nawr, a rhoi hyder inni nad oes rhaid i'n hapusrwydd ysbrydol na'n hapusrwydd corfforol fyth ddod i ben

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybyyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)